

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol  
Ail gyfarfod 2020

**Trydydd sesiwn dystiolaeth yr Ymchwiliad: Prifysgolion**  
Dydd Mawrth 29 Medi 2020  
12pm, Ar-lein drwy Zoom  
Cadeiriwyd gan Angela burns AS

### Cofnodion

#### **Yn bresennol**

Angela Burns AS, (AB) (Cadeirydd)  
Dai Lloyd AS, (DL)

#### **Yn cyflwyno:**

Yr Athro Keith Lloyd, Pennaeth Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe (KL)  
Yr Athro Robert Rogers, Cyfarwyddwr Ymchwil, Coleg Gwyddorau Dynol Prifysgol Bangor (RR)  
Yr Athro James Walters, Cyfarwyddwr y Ganolfan MRC ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig ym Mhrifysgol Caerdydd (JW)

Michael Bryan, Swyddfa Angela Burns AC (MB)  
Bethan Edwards, BHF Cymru (BE)  
Adam Fletcher, BHF Cymru  
Jonathan Roden, BHF yr Alban  
Lee Campbell, Ymchwil Canser Cymru (LC)  
Pushpinder Mangat, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (PM)  
Carys Thomas, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (CT)  
Beverly Luchmun, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru  
Corinne Squire, Prifysgol Caerdydd (CS)  
Mathew Norman, Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint ac Asthma UK  
Dr Christopher George, Prifysgol Abertawe (CG)  
Dr Abdul Seckham, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd  
Matthew O'Grady, Cymdeithas Strôc Cymru  
Mark Briggs, Gwasanaeth Gwaed Cymru  
Gemma Roberts, Ymchwil Canser y DU  
Andy Glyde, Ymchwil Canser y DU  
Joanne Ferris, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain  
Yr Athro John Parkinson, Prifysgol Bangor

#### **1. Cyflwyniad, croeso ac adolygu'r cofnodion**

Croesawodd Angela Burns (AB) bawb a diolchodd i Bethan Edwards (BE) am drefnu'r sesiwn. Dywedodd AB y bydd BE yn gadael BHF Cymru yn fuan.

Cyhoeddodd BE mai Gemma Roberts (GR) fydd Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus newydd BHF Cymru, a fydd yn ymgymryd â rôl yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol. Cyflwynodd GR ei hun.

Adolygodd AB gofnodion y cyfarfod diwethaf a chytunwyd ar y rhain.

#### **2. Cyflwyniad gan yr Athro Keith Lloyd, Pennaeth Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe**

Mae ymchwil feddygol yn hanfodol i Gymru, nid yn unig i'r economi, ond i iechyd a llesiant y boblogaeth hefyd. Y broblem yw bod Cymru'n tangyflawni ym maes ymchwil feddygol ar wahân i rai meysydd allweddol, ac mae'r broblem hon wedi cael ei gwaethygu gan Brexit a Covid-19.

#### Amgylchedd Ymchwil Feddygol Abertawe

- Portffolio eang o ymchwil sy'n deillio o gyllid UKRI, cyllid elusennol a chyllid yr UE.
- Mae'r brifysgol wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ymchwil Covid-19 e.e. gyda'r gwirydd symptomau ZOE Covid-19. Mae hyn wedi'i nodi fel ymchwil gan King's College ond mae'n llwyddiant i Gymru hefyd ac ni rannwyd hyn yn eang.

#### Cynnal y rhagoriaeth bresennol

- Mae'n rhaid i ni gynnal y rhagoriaeth bresennol mewn ymchwil yng Nghymru, gan nad oes gennym lawer o hyn.
- Rhaid inni gynnal y seilwaith. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn eithriadol o bwysig yn hyn o beth ond nid yw ei gyllid wedi cynyddu ers blynyddoedd lawer a gellir ystyried ei fod yn cael ei daenu'n denau.
- Mae'r Adolygiad Diamond yn awgrymu nad yw'r model cyllido presennol yn gynaliadwy. Felly, dylem fod yn canolbwyntio ar ymchwil craidd UKRI y gellir ei ariannu yng Nghymru.
- Adolygiad Augar: adolygiad o ffioedd myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae beth bynnag a wnawn ynghylch addysgu yn cael effaith ar ba gyllidebau sydd ar gael ar gyfer ymchwil.
- Mae UKRI yn gofyn am gyfraddau cyfraniad o 20 y cant gan brifysgolion, sy'n debygol o gynyddu.

#### Cynnal cyllid a gyrfaedd yn y dyfodol

- Ni ddylai Covid-19 a Brexit ddargyfeirio oddi wrth gyllid olynol yr UE
- Mae dadl ynghylch a ddylai cyllid olynol yr UE ddod o weinyddiaeth ar lefel y DU neu Gymru. Y cronfeydd penodol y dylem eu hystyried yw'r Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang a Chronfa Buddsoddi UKRI.
- Cyllid ar gyfer ymchwil o ansawdd - dylid ystyried sut mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn pwysu allbwn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a chyllid ar gyfer ymchwil o ansawdd.
- Cyllid elusennol - nid oes gan Ymchwil Canser y DU gyllid newydd ac mae BHF yn lleihau ei gyllideb 50 y cant

#### Cydweithrediad gyda'r sector a'r diwydiant

- Er gwaethaf colli cyllid yr UE, mae ymchwilwyr yn parhau i gael eu gofyn i gyfrannu at ymchwil yr UE gyda phartneriaid yn y diwydiant. Mae pethau cadarnhaol i'w hystyried.
- Mae'r dull o ddarparu cymorth ar gyfer arloesi yn dda ond yn dameidiog - nid yw cyllid Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, Mediawales, Catapult a A4B yn gydgyssylltiedig.

#### Ymchwil cymhwysol a chlinigol

- Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru rôl bwysig i'w chwarae ond mae ei gyllideb wedi'i gyfyngu a'i thaenu'n denau.
- Capasiti treialon clinigol - dylid annog pobl i gymryd rhan yn y treialon hyn er budd cleifion ac arloesedd.

- Dylid annog mwy o ymchwil o fewn y sector nyrsio a chyda gweithwyr proffesiynol gofal iechyd perthynol.

### Atebion arloesol i'r problemau uchod yn yr amgylchedd ymchwil feddygol yng Nghymru

- Mae'r ffaith bod Cymru yn aelod o'r Swyddfa Cydlynu Strategol Ymchwil i Iechyd yn hanfodol o ran agor cyllid i Gymru.
- Mae'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn 2021 yn rhoi cyfle i ni edrych ar sut mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn rhoi cyllid ar gyfer ymchwil o ansawdd.
- Dylai prifysgolion yng Nghymru fod yn gweithio gyda'i gilydd i osgoi taenu cyllid yn denau.
- Mae angen i arloesedd yng Nghymru fod yn fwy cydgysylltiedig, efallai o ganlyniad i weinyddu cyllid ar wahanol lefelau a chan wahanol gyrrff.
- Dylem gael cymysgedd o gynlluniau a weinyddir yng Nghymru ac yn y DU i ddisodli cyllid yr UE e.e. dylai'r Swyddfa Cydlynu Strategol Ymchwil i Iechyd fod ar lefel y DU.

Diolchodd AB i KL, a chyflwynodd RR.

### **3. Cyflwyniad gan yr Athro Robert Rogers, Cyfarwyddwr Ymchwil, Coleg Gwyddorau Dynol Prifysgol Bangor**

- Mae cynnwys ein hymchwil yn wahanol iawn i Abertawe gan ei fod yn canolbwyntio mwy ar arferion cymdeithasol, economaidd ac ymyrraeth sy'n seiliedig ar iechyd. Mae graddau ein hymchwil feddygol ychydig yn llai hefyd.
- Daw'r cyllid gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR), y Cyngor Ymchwil Feddygol ac yn fwyfwy gan UKRI a'r Ymddiriedolaeth Wellcome.
- Rydym yn ymrwmo i ddatblygu gallu yn y meysydd hyn ac ehangu ymchwil ym maes meddyginiaethau ataliol, yn unol â *Cymru Iachach* ac wrth ddileu anghydraddoldebau iechyd.
- Rydym yn rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ystyried y cynnig i gael Ysgol Iechyd a Meddygaeth yng Ngogledd Cymru. Byddai hyn yn cael effaith bwysig ar y ddarpariaeth o ran iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth.
- Mae rhyngddisgyblaeth yn bwysig i ddyfodol ymchwil feddygol. Rhaid inni ei ehangu i ystyried sut mae'r ymchwil yn rhyngweithio â ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i wneud gwahaniaeth.
- Rydym am feithrin capasiti ymchwil ac mae hyn yn gofyn am gydbwysedd rhwng adeiladu ar ragoriaeth ymchwil sy'n bodoli eisoes ond hefyd yr ymchwil sydd ei angen yng Nghymru o ystyried yr heriau iechyd a gwyddonol a wynebir.
- Mae angen i ni feddwl yn fwy strategol am yr hyn y mae meithrin capasiti yn ei olygu mewn gwirionedd a sut rydym yn mesur a yw capasiti'n newid ac a yw'n gwella.
- Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn bwysig ond rydym yn nodi nad yw rhai elfennau o'r cyllid sydd ar gael yn Lloegr ar gael yng Nghymru. Mae angen inni gynnig cyfres ehangach o gynlluniau.
- Rydym yn gwerthfawrogi ymchwil o ansawdd, ond rydym yn cytuno â'r argymhellion Reid ac mae angen gweithredu'r rhain.
- Mae astudiaethau wedi'u hatal oherwydd Covid-19 ond maent yn dod yn ôl yn araf.

Ymunodd Dai Lloyd (DL) â'r cyfarfod a rhoddodd AB grynodedd byr a chroesawodd James Walters (JW).

#### 4. Yr Athro James Walters, Cyfarwyddwr y Ganolfan MRC ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig ym Mhrifysgol Caerdydd

- Mae ymchwil yn ymwneud yn bennaf â gwaith geneteg ar sail ymchwil iechyd meddwl.
- Mae'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl hefyd yn eistedd o dan y Ganolfan MRC, a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

##### Effaith Brexit

- Mae sicrhau enw da'r ymchwil a wneir yng Nghymru yn dibynnu ar gael ymchwilwyr rhagorol ac oherwydd yr arbenigedd sydd ei angen ar gyfer ymchwil feddygol y mae'n rhaid i ni chwilio y tu allan i'r DU/Cymru yn aml. Mae angen inni gael cyrhaeddiad byd-eang.
- Mae llawer o ymchwilwyr sy'n dod o'r UE - ysgoloriaethau PhD a ariennir gan yr UE ac arian ymchwil y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd wedi bod yn ddefnyddiol iawn (yn enwedig o ran galluogi ymchwilwyr i sefydlu eu hunain fel ymchwilwyr annibynnol).
- Mae'r partneriaethau a'r cydberthnasau sy'n dod gan ymchwilwyr yr UE i Gymru yn amhrisiadwy.
- Mae Sêr Cymru wedi bod yn hanfodol wrth ddenu ymchwilwyr i'n cyfleusterau.
- Rydym wedi gallu sefydlu llwyfan data iechyd gofal eilaidd sy'n dod â manteision i'r GIG, cleifion ac i ymchwil feddygol. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd rhannu adnoddau, gwybodaeth a data yng Nghymru.
- Rydym wedi colli pobl oherwydd yr hyn y maent yn ystyried yw effeithiau negyddol o ganlyniad i Brexit ac rydym wedi gweld yn aml nad yw pobl bellach am ddod i weithio yng Nghymru oherwydd ansicrwydd. Er enghraifft, mae dod o hyd i arbenigwyr i weithio ar brosiect CUBRIC (a ariennir gan Lywodraeth Cymru) yn fwyfwy anodd.

##### Cydweithredu a chyllid

- Os yw Cymru am arwain y byd a bod yn gystadleuol ym maes ymchwil, mae angen inni wneud hynny'n strategol a dewis meysydd y gallwn ragori ynddynt.
- Mae angen cyllid arnom i alluogi hyn. Rydym yn cystadlu ac yn cydweithio â phrifysgolion arloesol ac mae'r gwahaniaeth yn amlwg rhwng y cyllid y mae Cymru'n ei gael a phrifysgolion mewn mannau eraill yn y DU.
- Bydd cyllid UKRI a'r Cyngor Ymchwil Feddygol yn dod yn bwysicach yn absenoldeb cyllid gan yr UE.
- Mae cynlluniau penodol ar gyfer cyllido a datblygu rhwydweithiau mewn gwledydd y tu allan i'r UE (fel Japan) wedi cael eu sefydlu, ond ni sefydlwyd dim i gynnal ac annog partneriaethau â gwledydd yr UE.
- Mae cyllid y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd yn hanfodol at ddibenion datblygu gyrfa gan nad oes llawer o gynlluniau penodol ar gyfer ymchwilwyr sy'n dechrau ar eu gyrfaedd. Mae'r cyllid hwn yn bennaf ar gyfer y rhai a gwblhaodd eu doethuriaeth 3-7 mlynedd yn ôl sydd am gychwyn fel ymchwilwyr annibynnol. Mae angen disodli'r gronfa hon â rhywbeth sylweddol.
- Nod Sêr Cymru yw helpu gydag ymchwilwyr sy'n dechrau ar eu gyrfa ond mae angen i hyn fynd ymhellach.
- Astudiaeth Achos - Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc. Mae'n creu cyfle enfawr i Gymru ond rydym yn ei chael hi'n anodd denu'r bobl bwysig ac angenrheidiol i gynnal hyn felly efallai ein bod yn colli cyfleoedd.

Diolchodd AB i JW a dywedodd ei bod wedi cyfarfod â llawer o sefydliadau trydydd sector y mae Covid-19 wedi effeithio ar eu gallu i ariannu ymchwil feddygol megis Ymchwil Canser y DU a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint. Croesawodd AB yn arbennig y mewnwelediad i sut mae hyn yn effeithio ar ymchwil feddygol yn hwyrach yn y dyfodol.

Rhoddodd AB gyfle i bawb ofyn cwestiynau.

## 5. Cwestiynau a thrafodaeth

Nododd KL sut yr oedd llawer iawn o orgyffwrdd rhwng cyflwyniadau, gan ganolbwyntio ar ymchwilwyr sy'n dechrau ar eu gyrfa, creu rhagoriaeth ymchwil a chynnal seilwaith.

Cytunodd JW gan ddweud hyd yn oed wrth gystadlu yng nghyd-destun y DU bod angen i ni feddwl am y tair agwedd hon yn fwy strategol nag yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd.

AB: Soniwyd am y ffaith bod cyllid elusennol wedi crebachu. A allwch roi unrhyw arwydd i ni o'r bwlch mewn cyllid yr ydym yn debygol o'i wynebu? Mae'n amlwg ein bod eisoes yn wynebu symiau is o gyllid yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU, a yw hyn yn debygol o gynyddu ymhellach?

JW: Mae'r bwlch o ran ymchwil y GIG yn amlwg a rhaid inni ddibynnu ar gyllid y Cyngor Ymchwil Feddygol a'r UE i gryfhau hyn. Ond wrth i'r rhain ddiflannu'n raddol, ceir heriau pellach. Er mwyn gwrthbwyso hyn, rydym yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Cyngor Ymchwil Feddygol ac yn mynd ar drywydd ymchwil lle y bydd gennym gryfder i gynnal cystadleurwydd. Mae rhai yn dadlau hefyd y dylid lleihau nifer y canolfannau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'u hariannu'n well.

KL: Byddwn yn cytuno â hyn. Mae angen i ni ganolbwyntio ar y pethau rydym yn eu gwneud yn dda a gellid dadlau bod cyllideb bresennol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi'i thaenu'n rhy denau. O ran cyllid elusennol, mae Ymchwil Canser y DU wedi rhoi'r gorau i ariannu'r holl ymchwil newydd ac mae'r BHF wedi torri cyllid 50 y cant. Bydd y cwmp hwn mewn cyllid elusennol yn effeithio ar wyddoniaeth labordy sylfaenol yn hytrach na gwyddoniaeth data iechyd. Hefyd, nid yw cyllid elusennol yn cynnwys costau gorbenion, sy'n achosi problem fawr i brifysgolion.

Lee Campbell (LC): Mae ymchwil mor dameidiog yng Nghymru. Mae Cymru'n ddigon bach fel bod gennym ddull cydgysylltiedig. Efallai mai'r hyn sydd ei angen arnom yw map ffordd ar ymchwil sy'n torri ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau o fewn yr amgylchedd ymchwil. Hefyd, mae angen inni integreiddio'n well rhwng ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â chyllido seilwaith. Cysylltwyd ag Ymchwil Canser Cymru i weld a allwn helpu i ariannu llwyfan ar gyfer ymchwil canser gastroberfeddol a chanser y coluddyn. Mae angen cyllid ar y prosiectau hyn nid yn unig i'w gweithredu ond hefyd er mwyn galluogi iddynt barhau. Dylai'r broses sefydlu gychwynnol gael ei hariannu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru a dylai costau rhedeg prosiectau penodol sy'n defnyddio'r llwyfannau hyn gael eu hariannu gan elusennau.

**Cam i'w gymryd:** Awgrymodd AB y dylai'r siaradwyr gysylltu â'r cadeirydd a'r ysgrifenyddiaeth i ofyn iddynt ysgrifennu llythyr ar y cyd at y Gweinidog, ac i'r Grŵp Trawsbleidiol anfon llythyr yn nodi'r effeithiau y mae Covid-19 wedi'u cael ar yr amgylchedd ymchwil feddygol.

Awgrymodd DL y dylid anfon copi hefyd at gadeirydd y Pwyllgor Iechyd.

Gadawodd AB a DL y cyfarfod i fynd i'r Cyfarfod Llawn a daeth Mike Bryan (MB) i barhau fel y cadeirydd.

Pushpinder Mangat (PM): Nid oes gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru swyddogaeth fawr o ran ymchwil ond rydym yn bwriadu newid hyn. Yr hyn rydym yn ei wneud yw rhoi cymorth i rai hyfforddeion meddygol ymgymryd ag addysgu ac ymchwil academaidd. A fyddai'n werthfawr ymestyn hyn i grwpiau proffesiynol eraill?

KL: Mae cynlluniau rhagorol ar gyfer hyn yn bodoli eisoes e.e. Cynllun Hyfforddiant Academaidd Clinigol Cymru sy'n hyfforddi meddygon, Cynllun Hyfforddiant Meithrin Gallu ac Ymchwil a gynigir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer nyrsys, bydwagedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol perthynol, a'r Gwobrau Amser Sesiynol Clinigol. Yr hyn sydd angen i ni ei wneud yw datblygu llwybrau gyrfa ym maes gwyddoniaeth data iechyd nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Fel gwlad, mae angen i ni sicrhau ein bod yn hyfforddi pobl gyda'r sgiliau sydd eu hangen arnom.

RR: Rydym yn awyddus iawn ym Mhrifysgol Bangor i ailwampio ein agenda ymchwil feddygol ein hunain i gynnwys hyfforddiant proffesiynol rhyngddisgyblaethol. Mae gwerth enfawr yn gysylltiedig â threfnu i wneud ymchwil yn hygyrch a byddai Bangor yn awyddus i ddatblygu'r drafodaeth hon gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Corinne Squire (CS): Pa gyfleoedd a chymorth sydd ar gael ar gyfer ymchwil gydweithredol rhwng y GIG a'r diwydiant?

KL: Mae hyn yn hanfodol bwysig ac mae modelau gwahanol ar gyfer hyn. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn gwneud gwaith da o ran cylch gwaith ei gyllid tuag at ddiwedd y biblinell ymchwil. Ond nid yw'r un gefnogaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cydweithio rhwng y diwydiant, boed hynny'n fewnol neu'n allanol, a dylai hyn fod o fewn cylch gwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

JW: O safbwynt y GIG, un o nodau'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl yw sefydlu'r cysylltiadau hynny â'r GIG, gwasanaethau a chlinigwyr. Ond i wneud hyn, mae angen i chi gael rhywbeth i'w gynnig. Mae angen inni feddwl yn ofalus am sefydlu rhagoriaeth i annog yr ymchwil gydweithredol hon.

O ran cydweithio â'r diwydiant, er enghraifft o ran cryfder mewn cynigion lleoedd, rydym yn cael trafferth yn y maes hwn gan nad oes gennym ddiwydiant mawr yn Ne Cymru. Byddai'n ddefnyddiol pe bai pobl yn gwybod ble i fynd i gael cymorth ar gyfer y math hwn o beth ac i hyn fod yn fwy cydgysylltiedig. Dylwn sicrhau bod mecanweithiau ar waith hefyd i ganiatáu i ymchwilwyr gysylltu â diwydiannau nad ydynt o reidrwydd wedi'u lleoli yng Nghymru ond a allai fod pe baent yn ymwybodol o'r cyfleoedd ymchwil sy'n bodoli.

Chris George (CG): Mae'r pwyntiau cyffredin ymhlith y siaradwyr wedi bod yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig o ran yr angen am gynllunio strategol. Ond o ble y mae angen i'r cynllunio strategol hwn ddod?

KL: Rydym yn edrych ar bartneriaethau mwy cynlluniedig rhwng Llywodraeth Cymru a phrifysgolion ac mae'n rhaid i ni gydweithio mwy o fewn y gofod hwn os ydym am lwyddo. Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru rôl i'w chwarae yn hyn o ran Llywodraeth Cymru, ond mae gan brifysgolion rôl i'w chwarae hefyd wrth lunio'r amgylchedd hwn e.e. sgysiau gyda Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch cyllid ar gyfer ymchwil o ansawdd a'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.

JW: Mae gennym ddull o fesur ein cryfderau ymchwil a'i Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Mae ganddo gyfyngiadau ond mae'n ffordd ddilys o asesu rhagoriaeth a gall hyn roi cyfle i ni asesu ble mae'r rhagoriaeth honno yng Nghymru. Mae angen i ni drefnu cyfarfod gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Llywodraeth Cymru i drafod yn strategol sut y gallwn adeiladu ar y cryfderau hyn. Ond mae angen i hyn gael ei gyfuno'n strategol wrth feithrin ac annog syniadau ymchwil newydd.

RR: Mae gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ddiddordeb mewn hyrwyddo trafodaethau gyda phrifysgolion i ddatblygu safbwyntiau ar y cyd a datblygu ein hymchwil mewn ffordd fwy cydgyssylltiedig. Mae ymchwil yn dod yn fwy o fwrdd cysylltiadau ac mae angen inni ddod at ein gilydd i nodi'n strategol yr hyn yr ydym yn dymuno ei gyflawni a gallu defnyddio'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil i ddatblygu cryfderau sy'n bodoli eisoes, a hefyd y gallu i nodi meysydd newydd a datblygol i fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

Carys Thomas (CT): Dim ond un rhan o'r darlun o'r tirlun ariannu yw Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae rhywfaint o'r gwaith rydym wedi'i wneud yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi canfod nad yw ymchwilwyr Cymru weithiai'n gwneud cais i ffrydiau cyllid sydd ar gael iddynt yn rhyngwladol ac yn y DU, a hyd yn oed pan fyddant yn gwneud cais, maent yn llai tebygol o ennill y cyllid hwn. Fy nghwestiwn i yw, ble y mae'r bylchau penodol hyn sy'n arwain at y canlyniad hwn?

KL: Mae Academyddion Cymru yn dal i gael eu tangynrychioli ar baneli a byrddau UKRI. Rydym hefyd yn dal i fod yng nghanol y broses o sefydlu ein henw da mewn meysydd y tu hwnt i'r ymchwil y tybir ein bod yn rhagori ynddi. Mae llawer o'n hymchwilwyr da iawn hefyd wedi derbyn yr holl grantiau sydd ar gael iddynt ac mae angen i ni ganolbwyntio ar ein cryfderau.

JW: Mae'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl hefyd yn eistedd ar y grŵp Cydweithio ar Ymchwil Drosi, sef sefydliad NIHR sy'n dwyn ynghyd yr holl ganolfannau ledled y DU sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl. Yr hyn y gofynnodd UKRI amdano gyda'i geisiadau Covid-19 oedd iddynt fod yn gydweithredol eu natur. Arweinydd y grŵp Cydweithio ar Ymchwil Drosi oedd yn arwain y cynigion, sy'n dangos os ydych chi'n arwain ar gydweithredu mewn cyd-destun UKRI, rydych mewn sefyllfa lawer mwy ffafriol i arwain cais am grant. Mae'r un sefyllfa gyda chyllid NIHR; mae angen i ni fod yn gystadleuol yng nghyd-destun yr UKRI a'r NIHR er mwyn gallu arwain ar grantiau sy'n gallu arwain at gynnydd mewn cyllid yn y dyfodol.

RR: Mae angen rhannu'r ddealltwriaeth a glywsom heddiw ledled Cymru er mwyn gwella'r capasiti ar draws prifysgolion. Dylem fod yn rhannu cyfleoedd hyfforddi ac ati i ddatblygu capasiti cydweithredol.

JW: Efallai y dylem fod yn gofyn i'r Cyngor Ymchwil Feddygol am adborth ar lefel Cymru gyfan ynghylch yr hyn y gallem ei wneud i wella ceisiadau.

RR: Cytunaf â hyn, byddai'n ddiddorol siarad â'r Cyngor Ymchwil Feddygol yn uniongyrchol a gweld y dystiolaeth.

CT: Rydyn ni wedi bod yn cael y sgyrsiau hyn gyda'r Cyngor Ymchwil Feddygol yn ddiweddar ac maen nhw'n ymweld â rhai prifysgolion bob blwyddyn, megis Prifysgol Caerdydd, i gael y trafodaethau hyn. Mae hyn yn bendant yn rhywbeth y gallem ei hwyluso a'i gefnogi wrth symud ymlaen ac efallai y gallaf gysylltu â siaradwyr ar ôl y cyfarfod hwn i fynd ar drywydd hyn.

Cam i'w gymryd: CT i gysylltu â KL, JW ac RR i hwyluso sgysiau gyda'r Cyngor Ymchwil Feddygol yn y dyfodol.

## **6. Cloi**

Diolchodd BE i'r siaradwyr am eu cyflwyniadau ac i'r aelodau am eu cyfraniadau i'r drafodaeth. Dywedodd BE wrth yr aelodau y bydd GR yn cysylltu cyn bo hir fel yr ysgrifenyddiaeth newydd i roi gwybod am unrhyw gyfarfodydd ar y gweill. Daeth y sesiwn i ben am 1:20pm.